# YSGOL UWCHRADD BODEDERN

Tachwedd 2020

# Cylchlythyr y Pennaeth

**DIOLCH I BAWB!**

A hithau'n hanner tymor mae ychydig o gyfle i edrych yn ôl, ac mae wedi bod yn braf iawn cael cyfarfod a dechrau dod i adnabod ein disgyblion gwych. Hoffwn hefyd ddiolch i rieni am yr hyder a'r ffydd a wnaethoch ddangos yn ein cynllun ail-agor.

Yn sicr, mae wedi bod yn hanner tymor tra gwahanol i ddisgyblion a staff, a hoffwn hefyd ddiolch i'r disgyblion am barchu'r holl ganllawiau a rheolau newydd. Pwy allai fod wedi rhagweld y byddai grwpiau blwyddyn ym mis Medi 2020 yn cael eu haddysgu mewn gwahanol rannau o'r ysgol; y byddai athrawon yn dysgu o bell ac o fewn parth dau fetr, ac y byddai pawb yn cerdded y coridorau yn gwisgo gorchuddion wyneb?

Mae gwytnwch yr holl ddisgyblion a fy staff wedi bod yn wych ac er nad hwn oedd y tymor agoriadol yr oedd unrhyw yn ddymuno, gan gynnwys fi fel Pennaeth newydd, mae wedi bod yn fraint dros yr wythnosau diwethaf i arwain y staff a'r disgyblion.

## EIN CYNLLUNIAU TU HWNT I'R HANNER TYMOR

### Parthau allanol a Ffreutur Blwyddyn 9

Yn ogystal ag ail-agor yr ysgol yn ddiogel yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth, roeddem hefyd eisiau ceisio cadw cymaint o normalrwydd â phosib, ac er ein bod yn parhau i fethu cynnig byrbrydau amser egwyl, rydym wedi gallu cynnig bwyd poeth amser cinio o'r diwrnod cyntaf. Hoffwn ddiolch i holl staff Caterlink am gyd-weithio gyda ni yn llwyddiannus ar ein model hyblyg newydd.

Gallaf gadarnhau felly y byddwn yn parhau i ddefnyddio pabell blwyddyn 10, fodd bynnag, byddwn yn gwenud rhai newidiadau i barth blwyddyn 9 y tu allan.

O'r 3ydd o Dachwedd ni fydd y babell fawr yn cael ei defnyddio dros fisoedd y gaeaf. Byddwn yn defnyddio'r gampfa fach ar gyfer man cinio blwyddyn 9. Bydd hyn hefyd yn golygu yn ystod misoedd y gaeaf y gellir ymestyn parth allanol blwyddyn 7 i ymgorffori'r ardal gymerwyd yn flaenorol gan y babell fawr a bydd yn rhoi ardaeloedd concrit sych ychwanegol i flwyddyn 7. Bydd y Theatr yn parhau i gael ei ddefnyddio fel ffreutur ychwanegol ar gyfer blwyddyn 8.

### Archebu cinio ar-lein


Ysgol Uwchradd Bodedern

ARCHEBION CINIO Dydd Mercher / Wednesday LUNCH ORDERS

Next

Never submit passwords through Google Forms.

This form was created inside of gsuite.cymru. Report Abuse

Google Forms

Mae blwyddyn 10 ac 11 wedi bod yn archebu cinio ar lein yn llwyddiannus iawn ers sawl wythnos bellach, ac o 9fed o Dachwedd bwriadwn i flwyddyn 9 ddilyn yr un drefn.

Golyga hyn y bydd cinio wedi ei baratoi ar eu cyfer ac yn cael ei gludo mewn bag efo'u henwau a'u harcheb arnynt.

Bydd rhain yn cael eu danfon i'r gampfa fach ar gychwyn y toriad cinio a bydd y gampfa yn gweithredu fel ffreutur dros gyfnod y gaeaf. Byddwn yn anfon y manylion i chi ar sut i archebu wythnos nesaf a bydd cost pob pryd yn cael ei dynnu'n awtomatig o'ch cyfrif School Gateway.

**BWYDLEN NEWYDD Y GAEAF HWN!**

Yn ogystal â'r dewisiadau presennol o ginio bydd y Potyn Pasta Poblogaidd a'r Cyri a Reis yn dychwelyd!




**BRECWAST**

O'r 9fed o Dachwedd bwriadwn dreialu trefn newydd o bryd ar glud sef brecwast. Bydd rhaid archebu brecwast y diwrnod blaenorol ac yna ar y diwrnod bydd y disgyblion yn codi eu harcheb o'r ffreutur ac yn mynd yn syth i'r parthau. Bydd y brecwast ar gael rhwng 8:15am ac 8:30am yn unig. Bydd trefniadau mewn lle i sicrhau ein bod yn cadw pellter cymdeithasol.
Dewisol fydd hwn yn naturiol, a bydd cost y brecwast yn dod o'r cyfrif SchoolGateway.

Byddwn yn treialu hwn am gyfnod cyn penderfynu a fydd y fenter yn parhau a'i peidio.



# NEWIDIADAU DROS DRO I AMSERLEN Y DYDD

| | |
|---|---|
| 08:35-08:55 | Cofrestru, Gwasanaeth a dal fyny / Registration, assembly and catch up |
| 08:55-09:45 | Gwers / Lesson 1 |
| 09:45-10:35 | Gwers / Lesson 2 |
| 10:35-10:50 | Egwyl / Break |
| 10:50-11:40 | Gwers / Lesson 3 |
| 11:40-12:30 | Gwers / Lesson 4 |
| 12:30-13:15 | Cinio / Lunch |
| 13:15-13:20 | Symud i wers 5 a chofrestru / Registration in lesson 5 |
| 13:20-14:10 | Gwers / Lesson 5 |
| 14:10-15:00 | Gwers / Lesson 6 |

Fel y nodais yn fy llythyr blaenorol mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi pwerau ychwanegol i ysgolion allu addasu'r diwrnod ysgol. Er ein bod wedi cael ail-agor llwyddiannus iawn, rwy'n ymwybodol bod gennym fisoedd hir y gaeaf o'n blaenau. Mae sicrhau parhad ein hamserlen wedi bod yn flaenoriaeth, ond credaf y bydd yr addasiadau tymor byr hyn yn gwella profiadau ein disgyblion a staff ymhellach ac yn cynorthwyo ni hefyd i leihau'r risg i bawb.

## O 3/11/20 bydd y diwrnod ysgol yn gorffen am 3pm.

Ni fydd unrhyw ostyngiad yn yr amser addysgu, ond byddwn yn cwtogi amser cinio o 15 munud. Bydd hyn hefyd yn lleihau symudiadau o fewn y swigen flwyddyn yn ystod amser cinio. Ffactor arall ydy sicrhau bydd pob disgybl yn cyrraedd adref yn ystod oriau golau dydd y gaeaf.

ER MWYN GWELLA PROFIADAU'R DISGYBLION YN YSTOD AMSER CINIO BYDDWN YN DANGOS FFILMIAU A RHAGLENNI TELEDU YN Y THEATR A'R GAMPFA FACH I FLYNYDDOEDD 8 A 9.



Mae tîm trafnidiaeth yr awdurdod lleol a'r holl gwmniau bysus wedi cytuno i'r newidiadau hyn dros dro.

# Dyddiadau i'r Calendr

Cafwyd diwrnod hyfforddiant Staff llwyddiannus iawn ar 23 Hydref. Cofiwch hefyd bod 2 Tachwedd 2020 yn ddiwrnod hyfforddiant i'r staff ac ni fydd ysgol i'r disgyblion. Ffocws yr hyfforddiant fydd "Dysgu Cyfunnol a Dysgu Digidol".



Mae diwrnod olaf tymor yr Hydref dydd Gwener 18 Rhagfyr a bydd yr ysgol yn ail-agor i ddisgyblion ar hyn o bryd dydd Mercher, 6 Ionawr 2021.

## Nosweithiau Rhieni
## Noson Agored

Yn anffodus, oherwydd arweiniad y Llywodraeth, ni allwn gynnal cyfarfodydd rhieni na nosweithiau agored. Byddwn yn rhannu gyda chi cyn bo hir ein cynlluniau i ymgysylltu ymhellach â rhieni ac i rannu cynnydd eich plentyn.

---

# WYTHNOS Y CLO BYR

# Gweler dolenni Llywodraeth Cymru am wybodaeth:

https://llyw.cymru/cyfnod-atal-y-coronafeirws-cwestiynau-cyffredin

https://llyw.cymru/ysgolion-canllawiau-cyfnod-atal-y-coronafeirws?_ga=2.168409569.1977824414.1603985530-2047317889.1599828546

Blwyddyn 7 a Blwyddyn 8:

Ni fydd newid o gwbl i chi, edrychwn ymlaen at eich gweld ddydd Mawrth, 3ydd o Dachwedd a byddwch yn dilyn eich amserlen arferol.

Blwyddyn 9, 10, 11, 12 ac 13:

Byddwch yn dilyn eich amserlen arferol o adref, ac fe fydd athrawon yn darparu gwersi a chefnogaeth i chi.

Er hyn, nid ydym yn disgwyl nac eisiau i unrhyw ddisgybl fod o flaen sgrîn drwy'r dydd, fell bydd amrywiaeth o wersi 'byw' gyda chyflwyniadau byw neu wedi eu recordio, a gwersi a thasgau ar Google Classroom.

Bydd athrawon ar gael i chi yn ystod y wers ar ffrwd i ateb cwestiynau ac i roi rhagor o gymorth. Rydym i gyd yn gobeithio y bydd y cyswllt band-llydan yn goroesi!

Rydym yn ymwybodol bod cyfrifiaduron a gliniaduron yn heriol i bawb pan mae aelodau'r teulu hefyd yn dysgu ar-lein neu'n gweithio o adref. Rydym eisoes wedi dosbarthu 50 gliniadur a bwriadwn rannu 40 arall cyn dydd Mawrth, gyda'r flaenoriaeth yn ddisgyblion blwyddyn 11. Er, gellir defnyddio teclunnau llaw i fewngofnodi i HWB a Google Classroom ac mae canllawiau isod ar sut i gysylltu drwy XBox neu Play Station. Plis cysylltwch efo ni dydd Llun os ydych angen "keyboard" neu "mouse".

# Y 5 CWESTIWN - EIN GWAITH

Mewn gohebiaeth flaenorol, rwyf wedi rhannu ein gwaith efo chi, a byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar 5 cwestiwn yn seiliedig ar ymchwil ryngwladol a gwaith gan Dr Lynn Sharrat.

## 5 CWESTIWN I'R DISGYBLION

Sut wyt ti yn gwneud?

Beth wyt ti'n ddysgu? Pam?

Sut wyt ti'n gwybod?

Sut y gallet wella?

Lle ti'n mynd i gael cymorth os oes gen ti gwestiwn?



## 5 CWESTIWN I'R ATHRAWON



Sut byddaf yn gwybod os yw'r disgyblion wedi ei ddysgu/ddeall o neu beidio?

Beth wyf yn ei ddysgu?


Pam yr wyf yn ei ddysgu?

Sud ydw i am ei ddysgu o?

Beth sydd nesaf .... os ydy o'n gweithio? Os nad yw'n gweithio? Lle ydw i fel athro yn mynd am gymorth?

Cwestiynau y gall rhieni ofyn i athrawon:

"Beth mae fy mhlentyn yn ei ddysgu?"
"Sut mae ef/hi yn ei wneud?"
"Sut ydych chi'n gwybod?"
"Sut y gall ef/hi wella?"



Cwestiynau y gall rhieni ofyn adref:

"Beth wnes di ddysgu heddiw?"
"Sut wnes di wneud?"
"Beth wnes di os nad oeddet yn deall"
"Sut wyt ti'n gallu gwella dy ddysgu?"
"Beth wyt ti'n fwyaf balch ohono?"





Defnyddio Xbox neu PlayStation i gael mynediad i Hwb

Cael mynediad at eich dysgu o bell.

**Xbox**
Plygiwch allweddfwrdd i mewn i'r slot Xbox USB

Ewch i mewn i'm gemau a'm apps

Dewch o hyd i Microsoft Edge a dewis

Teipiwch i mewn: Hwb a mewngofnodi fel y byddech yn yr ysgol

Yna gallwch gael mynediad i'ch gwaith drwy Google Classroom neu OneDrive a defnyddio pecynnau allweddol gan gynnwys:

Gair, Timau, Excel, Powerpoint,
Eich negeseuon e-bost

I symud o gwmpas defnyddiwch y rheolydd Xbox neu ategwch lygoden

**Playstation**

Nodwch eicon porwr rhyngrwyd yr Orsaf Chwarae (www gyda dotiau o'i amgylch)

Pwyswch logo'r Orsaf Chwarae ar y rheolydd

Ewch i'r llyfrgell a dod o hyd i opsiynau ar gyfer gemau a chymwysiadau

Ewch i mewn i geisiadau a byddwch yn dod o hyd i borwr y rhyngrwyd

Teipiwch Hwb i mewn i'r porwr a mewngofnodi fel y byddech yn yr ysgol

Yna gallwch gael mynediad i'ch gwaith drwy Google Classroom neu OneDrive a defnyddio pecynnau allweddol gan gynnwys:

Word, Teams, Excel, Powerpoint, Eich negeseuon e-bost

---

# I GLOI ...

Yn ystod yr wythnosau nesaf byddwn yn gweithio ar greu noson agored rhithiol, bydd hwn a'n holl fidios a vlogs ar gael ar ein gwefan:

http://www.ysgoluwchraddbodedern.org

*Diolch i chi gyd am eich cefnogaeth, mae'r daith gwella'n parhau.*

*Cofion a chadwch yn ddiogel i gyd.*

*Paul Matthews-Jones*
*Pennaeth*